



29 Ionawr 2021

### **YMATEB Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI MAWRHYDI HMICFRS): 'MECHNÏAETH CYN CYHUDDO A RHYDDHAWYD DAN YMCHWILIAD: TARO CYDBWYSEDD'**

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried sut y mae heddluoedd yn rheoli eu cyfrifoldebau o ran mechnïaeth cyn cyhuddo a rhyddhau unigolion dan ymchwiliad. Mae'n bleser gennyf nodi bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar ffyrdd o wella'r system er budd dioddefwyr, ac rwy'n cefnogi'r ddau argymhelliad sy'n berthnasol i heddluoedd. Mae Heddlu De Cymru yn gwneud ymdrech i weithio tuag at gyflawni nodau'r argymhellion hyn ac rwy'n hyderus y bydd y pwnc hwn yn destun craffu parhaus o fewn yr heddlu.

Byddwch yn gwybod fy mod i, fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, yn gyfrifol am hwyluso'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth o dan y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr. Mae'r gwaith o fonitro'r lefel o gyswllt ac ymgysylltiad â dioddefwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y newyddion diweddaraf bob amser am statws yr unigolyn dan amheuaeth o ran mechnïaeth a Rhyddhawyd dan Ymchwiliad, yn cael ei wneud drwy broses monitro cydymffurfiaeth y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr. Mae fy nhîm a minnau'n gweithio i sicrhau y gallwn fod yn hyderus bod dioddefwyr yn cael cyfle i ddylanwadu ar yr amodau ar gyfer rhoi unigolion dan amheuaeth ar fechnïaeth, a bydd y gwaith hwn yn dwyn ffrwyth wrth i ni fonitro cydymffurfiaeth asiantaethau cyfiawnder troseddol â'r Cod.

Bydd hyn yn digwydd o fewn ein proses fonitro wedi'i mireinio ar gyfer Cydymffurfiaeth â'r Cod i Ddioddefwyr, a gaiff ei lansio ym mis Ebrill 2021, yr ydym yn bwriadu ei hystyried ymhellach o safbwynt y materion penodol hyn. Byddwn yn gwneud hyn drwy ofyn i asiantaethau cyfiawnder troseddol a yw'r dioddefwyr wedi cael gwybod bod yr unigolyn dan amheuaeth wedi cael ei roi dan eu hamodau, p'un a ymgynghorwyd â nhw ac unrhyw newidiadau a wnaed i'r amodau. Rwy'n ymrwymedig i sicrhau bod hyn yn gwneud gwahaniaeth ac y gall fynd law yn llaw â'r pwyntiau a'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn.

## Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru  
Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru



Mae'r Prif Gwnstabl yn crynhoi ei farn am yr adroddiad fel a ganlyn:

*'Bydd diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau bob amser yn flaenoriaeth i Heddlu De Cymru, ac mae hyn yn cynnwys tystion a dioddefwyr troseddau. Rydym yn cydnabod yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad yn llawn, ac mae llawer ohonynt eisoes ar waith yn Ne Cymru. Byddwn yn ymdrechu i barhau i addasu a gwella ein hymateb yn y cyd-destun hwn sy'n newid.*

*Yn dilyn y newidiadau deddfwriaethol i fechniaeth yn 2017, gwnaeth Heddlu De Cymru newidiadau cyflym i'r ffordd y cynhaliwyd prosesau asesu risg gan sicrhau bod ein prosesau mewnol yn rhoi ystyriaeth briodol i anghenion unigryw dioddefwyr yn ogystal ag anghenion yr unigolion yn y ddalfa.*

*Y gobaith yw gwneud gwelliannau pellach, ond mae'n gadarnhaol bod Heddlu De Cymru wedi ymgorffori polisiâu cynhwysfawr wrth reoli mechniaeth cyn cyhuddo ac wrth ryddhau unigolion dan ymchwiliad. Mae'r polisiâu hyn yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ac yn cynnig dull cyson er mwyn sicrhau bod ymchwiliadau'n cael eu datblygu'n ddiwyd ac yn ddi-oed, ond yn bwysicach fyth, fod dioddefwyr a thystion yn cael eu diogelu ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.*

*Wrth i ni weithio yn y ffordd hon, rydym yn cael ein cefnogi gan bartneriaid o Wasanaeth Erlyn y Goron a Ffocws Dioddefwyr. Mae ffocws parhaus ar y safonau ymchwilio, yn arbennig ar gyfer achosion o gam-drin a thrais domestig, stelcio ac aflonyddu a throseddau treisgar yn fwy cyffredinol, yn mynd rhagddo o fewn prosiect yr heddlu, Cyfiawnder Troseddol ac Ymchwiliadau.*

*Rydym yn croesawu'r argymhelliad y dylai'r Coleg Plismona lunio canllawiau clir mewn perthynas â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion dan amheuaeth a gaiff eu rhyddhau dan ymchwiliad, ac mewn perthynas â sicrhau bod pob unigolyn dan amheuaeth sy'n gysylltiedig ag achosion lle cafwyd niwed difrifol a lle ceir risg ddifrifol yn destun mechniaeth ag amodau i ddiogelu'r dioddefwyr.*

*Bydd yr argymhellion ar gyfer y Swyddfa Gartref yn cael effaith ar reoli'r broses o gofnodi mechniaeth o hyn ymlaen, gan gynnwys adolygiad o'r ddeddfwriaeth. Bydd Heddlu De Cymru'n ymateb i unrhyw newidiadau, gan gadw'r pwyslais ar ddiogelu a chynnal ymchwiliadau amserol ar yr un pryd.*

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu  
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU  
ff: 01656 869366  
e: [commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk](mailto:commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk)  
g: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,  
Bridgend, CF31 3SU  
t: 01656 869366  
e: [commissioner@south-wales.pnn.police.uk](mailto:commissioner@south-wales.pnn.police.uk)  
w: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

## Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru  
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru



*Rydym yn croesawu argymhellion yr ymchwiliad a byddwn yn parhau i graffu ar ein prosesau ein hunain a dysgu o'n cymheiriaid a'n partneriaid'.*

Rwyf yn ddiolchgar i'r Prif Swyddog am ei sylwadau a'i ymrwymiad i weithio tuag at argymhellion yr adroddiad. Afraid dweud bod unrhyw argymhellion sy'n ymwneud â gwelliannau i brosesau er mwyn diogelu dioddefwyr a sicrhau atebolrwydd clir a rhesymeg dros benderfyniadau am fechnïaeth neu ryddhau dan ymchwiliad, yn angenrheidiol a'n bod yn eu croesawu. Bydd fy Mwrdd Craffu ac Atebolrwydd yn olrhain y cynnydd a wneir o ran y mater hwn.

**Y Gwir Anrh Alun Michael**  
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru**

---

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu  
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU  
Ff: 01656 869366  
e: [commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk](mailto:commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk)  
g: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,  
Bridgend, CF31 3SU  
t: 01656 869366  
e: [commissioner@south-wales.pnn.police.uk](mailto:commissioner@south-wales.pnn.police.uk)  
w: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English